

Monitorau ynni

Eich defnydd o drydan mewn amser real

Bydd monitor ynni yn mesur yn gywir ac yn arddangos defnydd o drydan cartref mewn amser real. Gall hyn eich helpu i ddeall sut i leihau eich biliau.

Mae monitorau ynni yn arddangos y defnydd o drydan mewn unedau o'r enw cilowat yr awr (kWh). Dyma'r un unedau sy'n ymddangos ar eich bil trydan (1 uned ar eich bil = 1kWh) fel gall eich monitor ynni ddangos cost y trydan rydych yn ei ddefnyddio i chi.

Gan y bydd y monitor yn dangos effaith troi ymlaen neu ddiffodd gwahanol oleuadau ac offer i chi'n syth, gallwch weld pa rai sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni. Gall y wybodaeth hon eich helpu i ddeall eich defnydd o ynni yn well, a thrwy hynny leihau'r defnydd o offer sy'n defnyddio llawer o ynni a gostwng eich costau tanwydd yn ogystal ag allyriadau CO₂.

Mae monitorau yn costio tua £30-40 a gellir eu gosod yn hawdd gan ddeiliad y tŷ. Mae'r rhan fwyaf yn ddigon bach i'w dal yn eich llaw a gellir eu gosod ar fraced ar y wal, neu eu rhoi yn rhywle amlwg fel ar sillf neu'r sillf ben tân. Weithiau, mae cyflenwyr ynni yn rhoi monitorau i'w cwsmeriaid am ddim.



Syth o'ch blaen! Mae monitorau ynni yn apelio at blant, a gallant feithrin cymhelliant cryf i arbed trydan

Mae llawer o fonitorau gwahanol i ddewis ohonynt, pob un gydag amrywiaeth o nodweddion. Mae rhai monitorau yn eich galluogi i:

- **Ddilyn eich defnydd o ynni dros amser**, gan eich galluogi i weld y cynnydd rydych wedi ei wneud tuag at leihau eich defnydd ohono.
- **Lawrlwytho eich gwybodaeth ar eich cyfrifiadur** i'w ddadansoddi ymhellach.
- **Cario eich monitor yn hawdd o gwmpas eich cartref** tra'n ymchwilio'n agosach i'ch defnydd o ynni.
- **Defnyddio eich monitor ar y cyd â monitorau soced** i fesur defnydd ynni offer penodol.
- **Gosod gwahanol dariffau trydan ar wahanol adegau o'r dydd**. Mae hyn yn ddefnyddiol os ydych chi ar dariff Economy 7.
- **Gosod targedau defnydd o drydan bob dydd**, gan roi 'cyllideb' ynni i geisio cadw ato.
- **Gosod 'larwm defnydd'** i roi gwybod i chi pan fyddwch wedi rhagori ar swm penodol o ddefnydd trydan.

Sut maen nhw'n gweithio?

Mae'r synhwyrdd sydd mewn monitorau ynni yn clipio ar y cebl pŵer sydd ynghlwm wrth eich mesurydd trydan. Mae hwn yn mesur y maes electromagnetig o amgylch y cebl i bennu faint o drydan sy'n pasio drwyddo. Yna, mae trosglwyddydd cysylltiedig yn anfon gwybodaeth am eich defnydd o drydan i'r uned arddangos weledol.

Newid eich arferion

Pan fyddwch yn cael monitor am y tro cyntaf, gallwch ei ddefnyddio i asesu eich defnydd o ynni yn drylwyr. Drwy ddiffodd pob golau ac offer, cewch ddarlleniad ar gyfer y defnydd o drydan pan fydd eich cartref yn 'gorffwys', fel y byddai yn ystod y nos neu pan fydd pawb allan. Cyfeirir at hyn yn aml fel y 'llwyth sylfaenol'. Yna, trowch eich offer ymlaen un wrth un er mwyn cael syniad da o faint o drydan mae pob un yn ei ddefnyddio a pha rai sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni.

Y cam nesaf yw cadw golwg am wastraff ynni diangen, megis peiriannau yn cael eu gadael ar 'standby', a cheisio defnyddio dyfeisiau sy'n defnyddio llawer o ynni yn llai aml neu am gyfnodau byrrach o amser. Mae'r monitor yn gweithredu fel arf i roi syniad cywir o'r arbedion mwyaf y gallwch eu gwneud ac yn eich helpu i asesu eich cynnydd. Os bydd pawb yn y cartref yn cymryd rhan, gallwch gydweithio i leihau eich defnydd o drydan.

Mae monitro eich defnydd dros y tymor hir yn ffordd wych o'ch cadw ar y trywydd iawn ac yn sicrhau eich bod yn arbed arian ar eich biliau. Yn hytrach na defnyddio'r monitor fel peth newydd ac yna anghofio amdano, ceisiwch wirio sut mae eich defnydd o drydan yn lleihau dros gyfnod o wythnosau, misoedd neu flynyddoedd hyd yn oed. Dylai fod yn broses foddhaol, sy'n eich galluogi i fireinio eich arferion ac arbed hyd yn oed mwy o arian ar hyd y ffordd.



Awgrymiadau ar gyfer lleihau biliau ynni

Hapus i dalu mwy am eich trydan a'ch nwy nag sydd angen? Nac ydych wrth gwrs. Felly dyma sut y gallwch leihau eich biliau:

Rhowch ddiwrnod yn yr haul i'ch dillad a rhowch seibiant i'ch peiriant sychu dillad. Mae dillad wedi'u sychu yn yr awyr iach yn teimlo'n wych, ac mae dyddiau sychu yn y gaeaf, hefyd.



Dysgwch nhw'n ifanc. Anogwch eich plant i ddiffodd teganau trydan a goleuadau nad ydynt yn eu defnyddio. Buan y byddant yn dod i arfer arbed ynni.



Byddwch yn ffrind i'ch rhewgell. Dylech ei ddadrewi'n rheolaidd i'w helpu i weithio'n fwy effeithlon.

Ydych chi ar fin prynu peiriant golchi, teledu neu beiriant golchi llestri newydd? Edrychwch am y logo Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.



Peidiwch â gorlenwi'r tegell (ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gorchuddio'r elfen metel yn y gwaelod).



Osgowch y drafft! Gosodwch rimynnau drafft i'ch drws ffyrnt, blwch llythyrau a thwll allwedd, a chaewch eich llenni wrth iddi nosi er mwyn cadw'r gwres i mewn.

Trowch eich gwres i lawr 1 gradd. Prin y byddwch yn sylwi ar y newid yn y tymheredd, ond bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'ch bil gwresogi.

Cysgwch yn dda. Gwnewch yn siŵr bod yr holl oleuadau'n cael eu diffodd pan fyddwch yn mynd i'r gwely. Os ydych am oleuo ystafell plentyn neu landin, defnyddiwch olau nos watedd isel.



3 St Peter's Court
Bedminster Parade
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400
www.cse.org.uk
info@cse.org.uk

Charity: 298740
Founded: 1979

Mae'r **Ganolfan Ynni Cynaliadwy** (CSE) yn elusen genedlaethol sy'n helpu pobl i newid y ffordd maent yn meddwl ac yn gweithredu ar ynni.

Mae ein **Tim Ynni Cartref** yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).



Ffôn: 0800 082 2234

E-bost: home.energy@cse.org.uk

Gwe: www.cse.org.uk/loveyourhome



[www.facebook.com/
EnergySavingAdvice](https://www.facebook.com/EnergySavingAdvice)



[www.twitter.com/
@cse_homeenergy](https://www.twitter.com/@cse_homeenergy)